

## Prifysgol Abertawe – Polisi Cynaliadwyedd 2017

Mae Prifysgol Abertawe yn rhan o weithgaredd ymchwil arloesol sydd â goblygiadau dwys o ran deall yr amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, a stiwardiaeth arno. Mae hyn yn cynnwys prosiectau carbon isel a fydd yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o sbarduno'r Deyrnas Unedig i ddefnyddio mwy o systemau ynni di-garbon, cyfreithiau amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy. Y gwaith ymchwil hwn yw prif gyfraniad y Brifysgol at ymdrin â heriau cynaliadwyedd.

Gan fod gennym drosiant blynyddol o fwy na £230 miliwn, a chymuned o ryw 17,000 o fyfyrwyr a thros 3,000 o staff, rydym hefyd yn cydnabod yr angen am reoli ein gweithrediadau mewn modd cynaliadwy, a bod pob un ohonom yn gyfrifol am greu dyfodol mwy cynaliadwy. Lluniwyd y polisi hwn gan gadw hynny mewn cof. Bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a'r holl rai cyfrannog, a bydd yn cael ei gyfleu i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

### Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwmo i'r canlynol:

1. *Lleiafu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau'r Brifysgol.*
2. *Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai cychwynnol (yn cynnwys tanwydd ffosil, dŵr ac ynni).*
3. *Annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i deithio mewn modd cynaliadwy.*
4. *Annog ac arddangos dulliau cynaliadwy o ymdrin â'r amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu, a chynnal a chadw.*
5. *Hyrwyddo amrywiaeth biolegol ar safleoedd y mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt.*
6. *Lleiafu'r gwastraff a gynhyrchir a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi trwy gynyddu aildefnyddio, ailgylchu ac adfer.*
7. *Gwarchod yr amgylchedd drwy atal llygredd a thrwy ymrwymadau penodol eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y sefydliad.*
8. *Ystyried dulliau cynaliadwy a moesegol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.*
9. *Hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ("ESDGC") ar draws cwricwla ffurfiol ac anffurfiol y Brifysgol.*
10. *Bodloni rhwymedigaethau cydymffurfio.*
11. *Hybu a chefnogi ymddygiad amgylcheddol gyfrifol ar draws cymuned y Brifysgol.*
12. *Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol.*
13. *Sicrhau bod y Brifysgol yn meithrin ei gallu i wrthsefyll peryglon newid yn yr hinsawdd.*
14. *Pennu, monitro ac adolygu amcanion perthnasol ac arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.*

*Yr Is-ganghellor, yr Athro Richard Davies*

*Ebrill 2017*